# <u>BEIRNIADAETH BARDDONIAETH</u>

## <u>RHIF 359 - BLWYDDYN 2 AC IAU - 'Amser Chwarae'</u>

## <u>gan Dorothy Jones</u>

Derbyniais 36 ymgais a chanmoliaeth i'r Urdd am osod testun o fewn profiad y cystadleuwyr. Disgwyliwn waith naturiol ac mae i bob ymgais elfennau canmoladwy – da iawn chi blantos a diolch i'r sawl fu'n eich sbarduno.

'Roedd amrywiaeth o ran cynnwys – mwyafrif y cystadleuwyr yn disgrifio amser chwarae yn yr ysgol, y parc neu'n chwarae dychymyg. O ran mynegiant, derbyniwyd cerddi rhydd, rhai acrostig gyda'r goreuon yn ymwybodol o fydr ac odl.

Yn y dosbarth cyntaf gosodaf – Mr Celfin, Mr Urdd, Nel, gyda'r canlynol yn dod i'r brig -

3ydd - Seren: (359/8) Braf gweld llawysgrifen yr ymgeisydd, er y dylid cofio gadael bwlch rhwng pob gair. Cerdd annwyl yn disgrifio amser chwarae ysgol. 'Dweud' didwyll ac odl syml. Syniad da oedd cychwyn pob pennill gyda sŵn y gloch.

2il - Perfformwraig: (359/17) Gwaith glân yn edrych ar y testun o ogwydd ychydig yn wahanol – chwarae dychymyg - ble mae'r tegannau yn cael parti.

*Papur yw'r brechdannau*

*a'r losin blociau pren yn grêt*

*ond y jeli sbwng sydd orau!*

Yna'r diweddglo i gyfleu'r siom

*Pam mae'n rhaid tacluso?*

Ffarmwr (359/16) sy'n gyntaf. Ymgeisydd sy'n byw i'w ffugenw, yn ysu am egwyl i gael 'chwarae ffarmwr'.

*'Rwy'n aros yn y dosbarth*

*Yn disgwyl i'r wers orffen,*

*Dwi wir yn methu aros,*

*Amser chwarae dw i angen.*

Cerdd fyrlymus a darluniau braf. Rhed ieithwedd ffermio drwyddi gyda'r dafodiaith yn ychwanegu.

*Mae'r 'harvester' yn barod,*

*A'r treilyr nawr yn carto,*

Syniad gafaelgar heb wastraffu geiriau a

*Phan mae'r gloch yn canu*

*Mae popeth wedi'i wneud.*

Llongyfarchiadau !